**GWEINIDOGION Y DEYRNAS UNEDIG SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**198 - Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 20 Hydref 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydynt |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 32 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 3 Tachwedd 2020 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Gwneir y Rheoliadau hyn i fynd i'r afael â’r ffaith nad yw cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o’r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio cyfeiriadau diangen at gyfreithiau a systemau'r Undeb Ewropeaidd na fyddant yn berthnasol mwyach ar ddiwedd y Cyfnod Pontio i sicrhau system weithredol ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw (gan gynnwys ceffylau), cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid

(gan gynnwys cig), sgil-gynhyrchion anifeiliaid, a phlasm cenhedlu, tra’n cynnal safonau lles a bioddiogelwch. Nod y newidiadau hyn yw cynnal y drefn fewnforio bresennol ac mae'r diwygiadau i Reoliadau a Phenderfyniadau'r Undeb Ewropeaidd a wneir yn uniongyrchol gan yr offeryn hwn yn dechnegol eu natur.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Offerynnau Statudol ar gyfer Ymadael â’r UE a wnaed yn flaenorol, ac yn eu dirymu.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 27 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol i’w harfer gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, ond hefyd yn gydredol.

Os yw'r Senedd yn dymuno dileu elfen Gweinidog y DU o swyddogaeth gydredol, yna byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU gydsynio i'w dileu. I'r graddau hynny, mae'r Rheoliadau'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch gorchymyn adran 109 (h.y. Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddai gorchymyn o'r fath yn negyddu'r effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ddileu'r angen am gydsyniad Llywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau cydredol.

Mae swyddogaethau a drosglwyddir fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig neu â chydsyniad Gweinidogion Cymru yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.